Datganiad i'r wasg - Press release
(Scroll down for English)

Rhaglen waith y Comisiynydd wrth ymwneud â'r trydydd sector yng Nghymru

Er mwyn cydnabod rôl allweddol y trydydd sector yn nyfodol yr iaith Gymraeg, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi rhaglen waith.

Mae'r rhaglen waith yn nodi'r amcanion canlynol:

- Gweld y Gymraeg wrth galon polisi trydydd sector yng Nghymru
- Addysgu sefydliadau trydydd sector am oblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Annog sefydliadau i gynyddu a chysoni darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y trydydd sector
- Annog cynnydd yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg yn y trydydd sector
- Annog cynnydd yn y cyfleoedd i wirfoddoli ac i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y trydydd sector
- Codi ymwybyddiaeth o'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n deillio o'r Mesur

Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, Meri Huws:

"Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn ein cymunedau ac yn darparu gwasanaethau rheng-flaen i bobl Cymru, ac yn gynyddol maent yn gweithredu ar ran sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn arbennig felly yn y sector iechyd ac ym meysydd llywodraeth leol. Mae darparu gwasanaeth llawn a phriodol yn y Gymraeg yn hollbwysig yn eu gweithredoedd, felly, a'n nod ni, trwy gyhoeddi'r rhaglen waith hon yw gweithio gyda nhw i adeiladu ar gryfderau'r maes ac adnabod bylchau sydd angen eu llenwi o ran darpariaeth Gymraeg."

Mae'r rhaglen waith wedi ei rhannu yn dair rhan. Mae rhan un yn amlinellu swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd wrth ymwneud â'r trydydd sector. Mae rhan dau yn gosod y cefndir ac yn adnabod y bylchau a'r cyfleoedd o safbwynt hybu gwasanaethau Cymraeg yn y trydydd sector. Mae'r trydedd rhan yn nodi'r targedau a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid rhwng 2013-15.

Cliciwch ar y linc isod i darllen y rhaglen waith:

http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20130821%20PL%20C%20Rhaglen%20Waith%20Trydydd%20Sector%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg.pdf

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eich sefydliad chi, cysylltwch â swyddfa'r Comisiynydd ar 0845 6033221, post@comisiynyddygymraeg.org neu ewch i'r wefan comisiynyddygymraeg.org.

The Commissioner's work programme relating to the third sector in Wales

In recognition of the third sector's important role in the Welsh language's future, the Welsh Language Commissioner has published a work programme.

The programme notes the following aims:

- See the Welsh language at the heart of third sector policy in Wales
- Educate third sector organizations on the implications of the Welsh Language (Wales) Measure 2011
- Encourage organizations to increase and align the provision of Welsh medium services in the third sector
- Encourage increased use of Welsh medium services in the third sector
- Encourage increased opportunities to volunteer and work through the medium of Welsh in the third sector
- Raise awareness of the freedom to use the Welsh language resulting from the Measure

The Welsh Language Commissioner, Meri Huws, said:

"Third sector organizations are deeply rooted in our communities and deliver front-line services to the people of Wales, and they are increasingly acting on behalf of public sector organizations, particularly within the health sector and local government. Providing a full and appropriate service in Welsh is therefore essential to their activities, and our aim, by publishing this work programme is to work with them to build on the strengths already in the sector and to identify gaps which need to be filled in terms of Welsh language provision."

The work programme is split into three parts. Part one outlines the Commissioner's powers and responsibilities in relation to the third sector. Part two sets out the background and recognises the gaps and opportunities with regards to promoting the Welsh language in the third sector. The third part sets out the targets and the timetable for achieving these goals in partnership with the key stakeholders.

Click on the link below to read the work programme:

http://www.comisiynyddygymraeg.org/English/Publications%20List/20130821%20PL%20S%20Welsh%20Language%20Commissioner%27s%20Third%20Sector%20Work%20Programme.pdf

If you have any questions regarding how to increase the use of Welsh within your organization, please contact the Commissioner's office on 0845 6033221, or visit the website welshlanguagecommissioner.org or email post@welshlanguagecommissioner.org